Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru

Cyflwyniad

Coetiroedd brodorol yw coetiroedd lle mae'r rhan fwyaf o'r coed a'r llwyni yn frodorol i'r safle. Maent hwy'n gynefinoedd pwysig i lawer o'n rhywogaethau brodorol o blanhigion ac anifeiliaid ac maent hwy'n bwysig iawn yn ddiwylliannol ac fel nodweddion tirweddol. Mae hyn yn arbennig o wir am goetiroedd Lled-Naturiol Hynafol sydd wedi bodoli yn y cyflwr hwn ers sawl canrif neu ragor. Y rhain yw'r coetiroedd mwyaf naturiol sydd gennym.

Mae rhannau helaeth o goedwig wedi cael eu clirio dros y canrifoedd a'r canlyniad yw bod llawer o'r coetiroedd brodorol sydd ar ôl yng Nghymru yn fach ac ynysig. Oherwydd y darnio hwn mae'n anodd i anifeiliaid a phlanhigion ledu ac mae coetiroedd bach yn dioddef fwy pan geir torri, gorbori neu newidiadau yn yr amgylchedd naturiol megis heintiau a newid hinsoddol.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo drwy ei Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i droi'n ôl y dirywiad mewn cynefinoedd a rhoddwyd cyfrifoldeb i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru dros gynefinoedd coetirol. Seilir y Gronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol ar gronfa her gynharach ar gyfer creu Coetiroedd Brodorol Newydd mewn Parciau Cenedlaethol. Bydd y system newydd yn elwa ar y profiad a gafwyd wrth redeg y gronfa honno, ond mae sawl gwahaniaeth pwysig.

- **Mae'n canolbwyntio ar ehangu a, lle bo modd, cysylltu ardaloedd o goetir brodorol.**
- **Mae hi ar gael drwy Gymru.**
- **Mae'r drefn gwneud cais yn llawer symlach nag yn achos yr hen Gronfa Her.**

Beth yw pwrpas y Grant?

Mae'r grant ar gyfer ehangu a, lle bo modd, cysylltu ardaloedd o goetir brodorol sy'n bod eisoes. Rhaid i'r coetir sydd i gael ei greu gynnwys rhywogaethau sy'n frodorol i'r ardal ac yn addas ar gyfer y pridd a'r safle (gweler *Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru: Gwybodaeth bellach i ymgeiswyr* isod).

Gellir creu'r coetir naill ai drwy aildyfiant naturiol neu drwy blannu neu drwy gyfuniad o'r rhain. Ond bydd angen dwysedd stocio cyfartalog o 1600 coesyn yr hectar o fewn 5 mlynedd. Dylai ymgeiswyr gymryd i ystyriaeth yr arweiniad ym Mwletin 112 y CC, *Creating New Native Woodlands* a'r amodau safle lleol er mwyn creu coetir a fydd yn datblygu nodweddion coetir naturiol yn gyflym.

Faint o arian sydd ar gael?

Bydd cyfanswm o £1.5 miliwn ar gael dros y tair blynedd nesaf.

Dyrennir hyd at £0.5m ar gyfer ceisiadau lle gwneir yr hawliad cyntaf erbyn mis Mawrth 2003.

Dyrennir hyd at £0.5m ar gyfer ceisiadau lle gwneir yr hawliad cyntaf rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2004.

Bydd y gweddill ar gael rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005.

Bydd y taliad Her yn £1,500 yr hectar yn ychwanegol at daliadau o dan y Cynllun Grant Coetir (WGS) presennol, grantiau sefydlu, a thaliadau dan y Cynllun Premiwm Coetir Fferm (FWPS).

Sut y bydd y Gronfa Her hon yn gweithio?

Mae swm cyfyngedig o arian ar gael ar gyfer y Gronfa Her, a rhoddir y grantiau hyn i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau sy'n cwrdd â'r meini prawf isod.

Meini prawf ar gyfer ceisiadau

- Rhaid i'r arwynebedd o goetir newydd sydd i gael ei greu fod yng Nghymru neu, yn achos tir fferm, ar ddaliad amaethyddol sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru.
- Rhaid iddo hefyd uno'n uniongyrchol â choetir brodorol sydd wedi'i lwyr sefydlu.
- NI all y tir fod â gwerth cadwraethol uchel. Ar dir heb ei wella, dylid ceisio cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Rhaid i'r cais beidio ag amharu ar safleoedd sy'n bwysig am resymau tirweddol neu archaeolegol.
- Rhaid i'r safle fod yn un lle gellir tyfu coed a fydd yn gwella'r coetir brodorol presennol. Gall hyn olygu, er enghraifft, nad yw tir y tarfwyd arno yn addas gan nad yw'r amodau pridd yn gallu cynnal yr amrywiaeth angenrheidiol o rywogaethau o goed a phlanhigion.

Gofynion o ran maint

- Rhaid bod gan bob ardal y bwriedir ei sefydlu arwynebedd o 0.25 hectar o leiaf.
- Bydd yr arwynebedd mwyaf a ganiateir fel rheol yn gyfwerth ag arwynebedd cyfan y coetir presennol sy'n cael ei ehangu neu ei gysylltu ac eithrio lle mae rhesymau tirweddol neu amgylcheddol cryf dros ehangu coetiroedd ar raddfa fwy.
- Byddai ardaloedd ychwanegol yn parhau'n gymwys ar gyfer y grantiau WGS a FWPS safonol.

Gellir edrych yn fwy ffafriol ar geisiadau sy'n:

- ehangu coetir i safleoedd lle'r oedd coetir o'r blaen a lle mae blodau sy'n nodweddiadol o goetiroedd, megis clychau'r gog, wedi goroesi;
- neu geisiadau sy'n cysylltu coetiroedd presennol â'i gilydd.

Cysylltu coetiroedd presennol

Dylai'r coetir presennol gael ei ffensio i atal pori gormodol a dylai'r coetir newydd redeg ar hyd cymaint o ffin y coetir presennol ag sy'n ymarferol er mwyn cynyddu ei "arwynebedd creiddiol". Os yw'r coetiroedd presennol dan fygythiad rhywogaethau ymledol anfrodorol, megis rhododendron, rhaid cynnwys ymrwymiad i wneud gwaith i leihau'r bygythiadau hyn o fewn y 5 mlynedd cyntaf. Mae'n bosibl y gellir cael grant am y gwaith hwn drwy'r WGS, a lle mae'r coetir yn eiddo i'r un perchennog dylid cynnwys y gwaith yn y cais am y grant WGS. Os ystyria'r CC fod angen asesu'n fwy manwl y ffordd y rheolir y coetiroedd presennol, gall fod angen cynhyrchu *Cynllun Coetir Brodorol* sy'n diffinio dulliau rheoli priodol.

Ymgynghori

Bydd yn rhaid ymgynghori ar bob cais yn unol â phroses ymgynghori arferol y CC. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gynnal ymgynghoriadau yn yr achosion canlynol:

- Ceisiadau dros 2 hectar mewn Parciau Cenedlaethol - rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan Awdurdod y Parc.
- Ceisiadau dros 10 hectar y tu allan i Barc Cenedlaethol - rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol.
- Ceisiadau ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - rhaid cael cefnogaeth ysgrifenedig Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Ceisiadau ar Henebion Rhestredig - rhaid cael cefnogaeth ysgrifenedig CADW.
- Bydd angen i ymgeiswyr sydd eisoes yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd megis Tir Gofal sicrhau eu bod yn cael cytundeb eu swyddog prosiectau i wneud cais.

Sut mae gwneud cais?

Os ydych am wneud cais, bydd angen i chi ddarllen *Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru: Gwybodaeth bellach i ymgeiswyr* sy'n rhoi manylion ychwanegol am y grant. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r Cynllun Grant Coetir neu â phlannu coetiroedd, rydym yn eich annog i geisio cymorth rhywun sydd â gwybodaeth a phrofiad yn y maes hwn. Bwriad y grant Cronfa Her yw galluogi ymgeiswyr i geisio cymorth a chyngor proffesiynol. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar ffurflenni WGS/FWPS 1 a 2 a rhaid nodi'n glir mai ceisiadau *Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru* ydynt. Dylid cynnwys map wedi'i anodi'n glir yn unol â gofynion y Nodiadau WGS. Gellir cael ffurflenni cais papur neu electronig a'r Nodiadau eglurhaol drwy wneud cais i swyddfeydd Ardal y CC yng Ngogledd a De Cymru.

Comisiwn Coedwigaeth, Swyddfa Ardal Gogledd Cymru
Clawdd Newydd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 2NL
Ffôn: 01824 750492
Ffacs: 01824 750483
E-bost: con.nw@forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth, Swyddfa Ardal De Cymru
Llys Cantref Court, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 7AX
Ffôn: 01873 850 060
Ffacs: 01873 850 052
E-bost: con.sw@forestry.gsi.gov.uk

Cronfa Her Ehangu Coetiroedd Brodorol Cymru: Gwybodaeth bellach i ymgeiswyr

Y Rheoliadau Asesu Effaith ar yr Amgylchedd (Coedwigaeth)

Asesir pob cais gan y Comisiwn Coedwigaeth er mwyn penderfynu a yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Yn achos ceisiadau mawr neu geisiadau ar safleoedd sensitif, gellir gofyn i'r ymgeisydd baratoi Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd cyn y bydd y CC yn ystyried y prosiect ar gyfer cymorth grant. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, gofynnwch am y llyfryn *Asesu Effaith Prosiectau Coedwigaeth ar yr Amgylchedd*.

Mathau o goetir a rhywogaethau

Bydd angen i ymgeiswyr nodi'r math o goetir brodorol sy'n cael ei greu, gan ddefnyddio'r mathau yn y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Coetir Brodorol (e.e. Coed Derw Uwchdirol) a'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol. Disgrifir y categorïau hyn (e.e. W11) ym Mwletin 112 y CC, *Creating New Native Woodlands*. Bydd angen esbonio sut mae'r arweiniad hwn a'r amodau safle wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddewis rhywogaethau ar gyfer plannu, er enghraifft, drwy gynnwys rhywogaethau arloesi ar safleoedd agored er mwyn sefydlu amodau coetir yn gyflym. Mae'r CC yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth bellach am y safle, megis ffotograffau, neu i ofyn i Ymchwil Coedwigaeth wneud asesiad annibynnol o'r amodau pridd a safle er mwyn penderfynu a yw'n addas ar gyfer y rhywogaethau sy'n cael eu cynnig.

Tir agored

Nod y Gronfa Her yw creu coetiroedd brodorol ag adeiledd amrywiol ac mae tir agored yn rhan bwysig o hyn. Gall hyd at 20% o'r arwynebedd sy'n gymwys ar gyfer grant gael cymorth grant fel tir agored cynlluniedig (OG). Fodd bynnag, dylid nodi hyn ar fap a dylid lleoli'r llecynnau agored o gwmpas nodweddion pwysig megis clegyrau, cynefinoedd, nodweddion archaeolegol, ffiniau neu lennyrch a all fod yn werthfawr ar gyfer gweithgareddau hamdden.

Dwysedd stocio

Dylai'r arwynebedd sy'n weddill gael ei stocio â **1600 o goesynnau yr hectar** o leiaf **erbyn blwyddyn 5**. Ni ddylid plannu'n unffurf gyda 2.5 metr rhwng pob coesyn; yn lle hynny, dylid plannu'r coed yn afreolaidd, er y gall fod yn anodd creu patrwm sy'n llwyr ar hap. Dylid plannu mewn grwpiau, fel y disgrifir ym Mwletin 112, gan roi rhywogaethau cydnaws gyda'i gilydd. Dylid lleoli rhywogaethau mwy sensitif yn ofalus a'u plannu mewn grwpiau i wella eu siawns o oroesi. Argymhellwn y dylai fod 2 fetr ar gyfartaledd rhwng y coed o fewn y grwpiau, ac y dylid gadael tuag un rhan o dair o'r arwynebedd fel bylchau o rhwng 5 i 20 metr rhwng y grwpiau. Dull arall fyddai plannu'r holl goed â bwlch o 2 fetr rhyngddynt a chreu bylchau rhwng y coed ym mlwyddyn 5 er mwyn gwneud yr adeiledd yn fwy amrywiol. Bydd y contract yn pennu stocio cyfartalog lleiaf o 1600 coesyn yr hectar erbyn blwyddyn 5 ac felly os nad yw digon o goed wedi ymsefydlu erbyn yr adeg honno, bydd angen plannu rhagor o goed i osgoi ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r grantiau a dalwyd ynghynt.

Dulliau sefydlu

Rhaid i geisiadau nodi pa waith a wneir i baratoi'r safle a sefydlu'r coetir. Disgwylir i ymgeiswyr ddilyn yr arfer gorau wrth sefydlu'r coetir, a hyd yn oed pan ddibynnir ar aildyfiant naturiol, dylent ystyried paratoi'r safle er mwyn datrys problemau megis cywasgiad y pridd, a sicrhau na fydd gormod o chwyn yn tyfu ac y byddant yn cael eu cadw dan reolaeth. Yn achos ceisiadau sy'n dibynnu ar aildyfiant naturiol, dylid ystyried plannu'n gynnar rai rhywogaethau nad ydynt mor debygol o aildyfu'n naturiol. Bydd yn rhaid cael gwared â choed a llwyni ymledol anfrodorol sy'n dechrau aildyfu.

Tarddiad y stoc plannu

Rhaid i'r holl stoc plannu fod o darddiad lleol addas fel y'i diffinnir yn Nodyn Ymarferol y CC: *Using Local Stock for Planting Native Trees and Shrubs*. Mae hwn yn diffinio cylchfaoedd tarddiad *(provenance)* daearyddol ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylid cymryd ffactorau megis uchder i ystyriaeth wrth ddewis stoc plannu. Mae hyn yn bwysig iawn os nad yw defnyddiau o'r gylchfa gyfagos ar gael. Rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o darddiad y stoc plannu gyda'r hawliad cyntaf am grant sefydlu. Dylai hyn fod ar ffurf *tystysgrif Tarddiad Lleol* os yw'r stoc wedi cael ei brynu o feithrinfa. Os yw'r stoc wedi cael ei dyfu o gasgliad hadau lleol a'i dyfu ymlaen gan y perchennog neu feithrinfa, mae'n bosibl nad oes tystysgrif a gall y dystiolaeth gael ei darparu ar ffurf arall.

Mathau o grant sydd ar gael

Gellir gwneud y taliad Cronfa Her o £1,500 yr hectar yn ychwanegol at y Cyfraniad Tir Gwell, grant sefydlu ac, os yw'n briodol, taliad FWPS. Bydd angen i ymgeiswyr nodi yn y cais sut y maent hwy'n bwriadu sefydlu'r coetir brodorol i sicrhau **1600 coesyn yr hectar** ar gyfartaledd. Gellir gwneud hyn naill ai drwy blannu neu drwy aildyfiant naturiol neu gymysgedd o'r rhain; fodd bynnag, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd eu penderfyniad yn cael effaith ar y cymorth grant sydd ar gael fel yr eglurir isod.

Coetir Brodorol a sefydlir yn bennaf neu'n gyfan gwbl drwy Blannu.
Gall ymgeiswyr sy'n plannu o leiaf 1100 o goed yr hectar yn y flwyddyn gyntaf hawlio'r Grant Cronfa Her o £1,500 yr hectar ar yr un pryd ag yr hawliant randaliad cyntaf y Grant Plannu a, lle bo'n briodol, Cyfaniad Tir Gwell.
Ym mlwyddyn 5 bydd ymgeiswyr yn gallu hawlio'r 30% o'r Grant Sefydlu sy'n weddill ar yr amod bod 1600 coesyn yr hectar ar gyfartalog wedi'u sefydlu. Os oes llai na hyn, bydd gofyn i'r ymgeisydd blannu a sefydlu digon o goed i sicrhau 1600 coesyn yr hectar cyn y gellir hawlio'r ail randaliad.
Enghraifft wedi'i chyfrifo O dan 10 hectar, plannu 1600 coesyn yr hectar, Tir wedi'i Wella Blwyddyn 1 hawlio: £1,500 yr hectar o Grant Cronfa Her 70% x £1,350 yr hectar o Grant Plannu Ynghyd â: £600 yr hectar o Gyfraniad Tir Gwell Cyfanswm blwyddyn 1: £3,045 yr hectar Blwyddyn 5 hawlio: 30% x £1,350 yr hectar = £405 yr hectar Cyfanswm Grantiau WGS: **= £3,450 yr hectar**
Yn ogystal, bydd taliadau FWPS yn cael eu gwneud bob blwyddyn am 15 mlynedd i ymgeiswyr cymwys.

Coetir Brodorol a sefydlir drwy ddefnyddio cryn dipyn o Aildyfiant Naturiol.
Ni fydd ymgeiswyr sy'n plannu llai na 1100 coesyn yr hectar i ddechrau yn gymwys ar gyfer Grant Plannu. Yn lle hynny, byddant yn gallu hawlio'r Grant Cronfa Her o £1,500 yr hectar ar ôl cwblhau unrhyw waith sydd ei angen i sicrhau aildyfiant naturiol. NI fydd y Taliad Dewisol ar gael ar gyfer hyn ond bydd modd hawlio Cyfraniad Tir Gwell lle bo'n briodol.
Bydd yr ymgeisydd yn gallu hawlio Taliad Sefydlog o £525 yr hectar pan fydd 1600 coesyn yr hectar ar gyfartalog wedi'u sefydlu. Os nad yw hyn wedi digwydd erbyn blwyddyn 5, yna bydd gofyn i'r ymgeisydd blannu digon o goed i ddod â'r stoc i fyny i 1600 coesyn yr hectar; bydd wedyn yn gallu hawlio'r Taliad Sefydlog.
Enghraifft wedi'i chyfrifo O dan 10 hectar, Tir wedi'i Wella, 1600 coesyn yr hectar, aildyfiant naturiol yn bennaf Blwyddyn 1 hawlio: £1,500 yr hectar o Grant Cronfa Her Ynghyd â: £600 yr hectar o Gyfraniad Tir Gwell Cyfanswm blwyddyn 1: £2,100 yr hectar Blwyddyn 5 hawlio: £525 yr hectar o Daliad Sefydlog Cyfanswm Grantiau WGS: = **£2,625 yr hectar**
Yn ogystal, bydd taliadau FWPS yn cael eu gwneud bob blwyddyn am 15 mlynedd.

Pa bryd y bydd Cronfeydd Her yn cael eu dosbarthu?

Mae swm penodol o arian ar gael yn y Gronfa Her, a bydd yn cael ei ddyrannu i'r rhai cyntaf sy'n gwneud cais dilys. Ni fydd hyn yn seiliedig ar y dyddiad y derbynnir y cais yn gyntaf, ond yn hytrach ar y dyddiad y bydd y cais yn cwrdd â meini prawf y Gronfa Her a gofynion y Comisiwn Coedwigaeth. Byddwn yn ceisio asesu'r ceisiadau yn brydlon ac yn rhoi gwybod i chi o fewn 6 wythnos ar ôl derbyn eich cais os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom. Ond rhoddir blaenoriaeth i brosesu ceisiadau lle caiff yr hawliad cyntaf am grant ei gyflwyno erbyn 10 Mawrth 2003. Ni chymeradwyir cymorth grant ar gyfer ceisiadau lle caiff yr hawliad cyntaf ei gyflwyno rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2004 hyd nes bod y meini prawf ar gyfer rhoi grantiau wedi cael eu hadolygu gan banel annibynnol o arbenigwyr ym mis Ebrill 2003.

Cyllido dwbl

Ni fydd ymgeiswyr yn gallu derbyn taliad Cronfa Her am blannu ardaloedd sy'n derbyn cymorth grant o dan brosiect Cysgodgoed (Shelterwoods) y Comisiwn Coedwigaeth, neu lle derbynnir cymorth grant tuag at gostau ffensio drwy gynlluniau Tir Gofal.

Forestry Commission MDA-Nov 04 © Crown copyright.